

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS, DDYDD LLUN 27 GORFFENAF 2020 (10:30 – 12:30)

Aelodau CFfDLC yn bresennol: Ceri Stradling (Cadeirydd), Dave Powell (Aelod), Theo Joloza (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

Cynrychiolydd Archwilio Cymru: Mark Jones

Cynrychiolydd TIAA: Helen Cargill

Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru: Sean Gaffney

Swyddogion CFfDLC: Shereen Williams (Prif Weithredwr), Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni), David Carr (Rheolwr Cyllid), David Burley (Pennaeth Busnes)

Croesawodd y Cadeirydd Helen Cargill o TIAA Ltd, a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn dilyn y cynnig llywyddiannus am gontract archwilio mewnol CFfDLC.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2020

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2020 yn amodol ar fân newid i gywiro gwall teipio.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y Pwyllgor fod mwyafrif yr eitemau a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol naill ai wedi'u cwblhau erbyn hyn neu yr eir i'r afael â nhw'n ddiweddarach ar yr agenda.

4.2 Roedd rhai eitemau'n weddill o hyd, sef:

- Ni chafwyd copi o sicrwydd archwilio mewnol TGCh Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, er gwaethaf anfon sawl neges atgoffa. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn parhau i anfon negeseuon atgoffa at adran TGCh Llywodraeth Cymru yn gofyn am sicrwydd archwilio mewnol.

Gweithredu: Prif Weithredwr **Erbyn:** 25 Tachwedd 2020

- Ni fu'n bosibl cynnal adolygiad o'r Gofrestr Risg TGCh oherwydd ymrwymadau eraill. **Cytunwyd** y byddai hyn yn cael ei wneud cyn y cyfarfod ym mis Tachwedd.
Gweithredu: Pennaeth Busnes **Erbyn:** 25 Tachwedd 2020
- Ni fu'n bosibl trefnu sesiynau hyfforddiant diogelwch TGCh i Aelodau ar ôl y cyfarfod oherwydd rheolau cadw pellter cymdeithasol. Dywedodd Sean Gaffney y gallai gynnal yr hyfforddiant wyneb-yn-wyneb ag Aelodau neu o bell, ond y byddai angen tua phythefnos o rybudd arno i baratoi ar ei gyfer. Ystyriwyd y byddai mis Tachwedd yn adeg gyfleus i gynnal yr hyfforddiant. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn rhoi pythefnos o rybudd i Sean Gaffney o ba bryd y byddai angen yr hyfforddiant Diogelwch TGCh i Aelodau.
Gweithredu: Pennaeth Busnes **Erbyn:** 25 Tachwedd 2020
- Roedd Cymwysterau Cymru wedi asesu hyfforddiant diogelwch y rhyngwyd Hut Six, ond wedi dod i'r casgliad nad oedd yn cynnig unrhyw fantais uwchlaw'r hyfforddiant presennol ar ddiogelwch y rhyngwyd.

5. Adroddiad Diogelwch Data TG

- 5.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data ar gyfer 2020-21 hyd yn hyn.
- 5.2 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad diogelwch TGCh a gyflwynwyd gan Sean Gaffney. Rhoddodd grynodedb o'r bygythiadau seiber diweddaraf a ganfuwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol. Nodwyd hefyd bod y diweddariadau i'r system weithredu yn gyfredol ar gyfer yr holl Surface Pros gweithredol, bod gwefan y Comisiwn yn ddiogel a bod y bygythiad mwyaf yn dod o negeseuon gwe-rwydo, ond bod y rhain wedi'u rhwystro'n llwyddiannus.
- 5.3 Er na chynhaliwyd Adolygiad o Ddiogelwch y Cwmwl er mis Chwefror 2019, roedd Cymwysterau Cymru wedi darganfod bod gan yr adolygiadau hyn lai o werth dros amser, a'i fod yn cyflogi aseswr annibynnol erbyn hyn. Dywedodd fod Cymwysterau Cymru wedi penderfynu peidio â chynnal yr Adolygiad o Ddiogelwch y Cwmwl oni bai bod angen sicrwydd pellach.
- 5.4 Roedd y Comisiwn wedi ennill ei ardystiad Cyber Essentials Plus blynyddol ym mis Mai 2020, a diolchodd y Pwyllgor i staff Cymwysterau Cymru a oedd wedi cyfrannu at ei ennill.
- 5.4 Nododd y Pwyllgor ganlyniadau cyfredol yr ymosodiadau gwe-rwydo ffug, a oedd yn dangos mai canran fechan iawn yn unig o'r staff a fu'n agored i'r negeseuon gwe-rwydo ffug.

6. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2020-21

- 6.1 Crybwyllwyd bod Cynllun Gwaith newydd wedi'i ddrafftio ar gyfer 2020-21.
- 6.2 Nododd y Pwyllgor gynnwys Cynllun Gwaith 2019-20 a **chytuno** arno.

7. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

- 7.1 Nododd y Pwyllgor gynnwys y Cylch Gorchwyl, a **chytuno** arno, yn amodol ar ddileu unrhyw gyfeiriad at yr angen i gynrychiolydd o'r adran noddi fod yn bresennol mewn cyfarfodydd.

8. Cyfrifon Blynyddol 2019-20 a'r Archwiliad o'r Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol

- 8.1 Nodwyd bod y datganiadau ariannol a'r cyfrifon drafft wedi'u hystyried yng nghyfarfod CFfDLC a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2020.
- 8.2 Gwahoddodd y Cadeirydd y Rheolwr Cyllid i roi crynodeb byr o uchafbwyntiau'r cyfrifon blynyddol, ac fe wnaeth hynny'n briodol. Ar ôl hynny, diolchodd aelodau'r Pwyllgor a'r archwilydd allanol i'r Rheolwr Cyllid am yr ymdrechion ychwanegol a wnaeth dan amodau anodd y cyfnod clo i sicrhau y paratowyd y cyfrifon yn brydlon, a'u bod wedi'u hategu gan ddogfennau addas at ddibenion archwilio.
- 8.3 Crybwyllodd Mark Jones y derbyniwyd y cyfrifon yn brydlon ac, o ganlyniad, bod yr amserlen wreiddiol ar gyfer cwblhau'r archwiliad wedi'i bodloni. Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod, cyn belled â na fydd unrhyw ddigwyddiadau'n effeithio ar y cyfrifon hyd at yr adeg y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn eu hardystio, sef 31 Gorffennaf.
- 8.4 Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon. Roedd 8 o gamddatganiadau a gywirwyd yn y cyfrifon ac un mater sylweddol yn deillio o'r archwiliad. Roedd y mater sylweddol yn ymwneud â gwendidau o ran rheolaethau a dogfennau Adnoddau Dynol CFfDLC, yr oedd Archwilio Cymru wedi canfod eu bod yn annigonol. Cytunodd y Pwyllgor y dylai CFfDLC fynd i'r afael â'r materion Adnoddau Dynol a nodwyd yn ystod yr archwiliad ar frys.
- Gweithredu:** Pennaeth Busnes **Erbyn:** 25 Tachwedd 2020
- 8.5 Dywedodd Mark Jones y byddai tâl archwilio ychwanegol (h.y. y tu hwnt i'r tâl a amcangyfrifwyd yng Nghynllun Archwilio 2020) oherwydd y nifer gymharol uchel o faterion archwilio a nodwyd a'r gwaith archwilio pellach yr oedd ei angen. Eleni, byddai Archwilio Cymru yn paratoi Atodiad i'r Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol yn amlinellu canfyddiadau archwilio penodol, argymhellion ar gyfer gwella ac ymatebion rheolwyr. Byddai'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd.
- 8.6 Roedd y Pwyllgor o'r farn bod un o'r camddatganiadau a gywirwyd yn ymwneud â'r nodyn ar gostau staff yn y cyfrifon yn gamarweiniol, gan fod y ffigur a roddwyd yn gyfanswm o'r costau staff yn hytrach na'r gwahaniaeth rhwng y costau staff anghywir gwreiddiol a'r costau staff diwygiedig. Cytunodd Mark Jones y byddai'n diwygio Atodiad 3 o'r Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol ac yn anfon yr adroddiad wedi'i ddiweddarau at Reolwr Cyllid CFfDLC y diwrnod hwnnw. **Cytunwyd** y byddai Archwilio Cymru yn darparu cofnod ychwanegol o'r camddatganiad a gywirwyd i'r Pwyllgor ar gyfer ei gofnodion.

Gweithredu: Archwilio Cymru **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2020

8.7 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ei adroddiad. **Cymeradwyodd** y Pwyllgor y cyfrifon archwiliedig a'u llofnodi.

9. Strategaeth Archwilio a Chynllun Archwilio Mewnol Blynyddol

9.1 Dywedodd Helen Cargill fod y strategaeth yn cwmpasu'r 3 blynedd nesaf o 2020-21 hyd 2022-23 ac yn cynnwys materion fel canlyniad archwiliadau blaenorol, twyll a seiberddiogelwch, yn ogystal â materion cenedlaethol fel Covid-19 a Brexit.

9.2 Roedd Atodiad B yn rhoi cynllun strategol treigl ar gyfer y cyfnod 3 blynedd. Roedd y cynllun yn hyblyg a gellid ei newid. Roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai mis Medi fod yn rhy gynnar i gynnal archwiliad o ymateb CFfDLC i Covid-19, ac y dylid dwyn yr archwiliad adnoddau dynol ymlaen oherwydd canfyddiadau'r archwiliad allanol diweddar. Ystyriwyd hefyd y dylai'r archwiliad adnoddau dynol gynnwys adolygiad o gyflawnrwydd cofnodion adnoddau dynol a lles staff.

9.3 **Cytunwyd** y byddai'r gwaith archwilio adnoddau dynol yn cael ei gynnal yn gynharach a'i gynnwys yn yr archwiliad ym mis Medi 2020, ac y byddai'r gwaith archwilio ar yr ymateb i Covid-19 yn cael ei ohirio gan yr archwiliad ym mis Chwefror 2021.

Gweithredu: TIAA Ltd. **Erbyn:** 1 Medi 2020

9.4 Nododd y Pwyllgor nad oedd y dyddiadau a drefnwyd ar gyfer y gwaith archwilio ym mis Chwefror 2021 yn caniatáu llawer o amser i gyhoeddi'r adroddiad archwilio cyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ym mis Chwefror 2021. **Cytunwyd** y byddai'r gwaith archwilio ym mis Chwefror 2021 yn cael ei gynnal yn gynharach er mwyn caniatáu digon o amser i gyflwyno'r adroddiad archwilio yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ym mis Chwefror 2021.

Gweithredu: TIAA Ltd. **Erbyn:** 1 Chwefror 2020

9.5 **Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio a'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol, yn amodol ar y newidiadau cytûn.

10. Asesiad Archwilio Mewnol Blynyddol CFfDLC 2019-20

10.1 Crybwyllwyd bod Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg wedi cwblhau eu hasesiad blynyddol o archwilio mewnol ar gyfer 2019-20. Nododd y Pwyllgor gasgliadau'r asesiad, sef bod annibyniaeth a pherfformiad Archwilio Mewnol o safon uchel ac wedi bodloni'n safonau yn ymwneud â sicrhau ansawdd.

11. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd

11.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar yr argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill.

11.2 Nodwyd bod yr holl argymhellion archwilio mewnol a oedd yn weddill wedi'u rhoi ar waith erbyn hyn.

11.3 O ran yr argymhelliad archwilio allanol a oedd yn weddill o 2018-19, sef y dylai'r Comisiwn gryfhau ei broses awdurdodi taliadau ar-lein, crybwyllwyd na fu ymdrechion i newid cyfrifon banc i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn llwyddiannus oherwydd diffyg ymateb. Yn sgil hynny, roedd yr Ysgrifenyddiaeth o'r farn y dylai CFfDLC ddod o hyd i ddull amgen o weithredu system â dau lofnodydd i awdurdodi taliadau ar-lein â'i fanc cyfredol. Y dyddiad cau diwygiedig ar gyfer hyn oedd 31 Hydref 2020.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Hydref 2020

11.4 Tynnodd Mark Jones sylw at y ffaith bod y disgrifiad testun o'r argymhelliad a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn ddisgrifiad o ganfyddiadau'r archwiliad roedd yr argymhelliad yn deillio ohono, yn hytrach na'r argymhelliad ei hun. **Cytunwyd** y byddai hyn yn cael ei gywiro erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 25 Tachwedd 2020

12. Rhestr Colledion 2019-20

12.1 Nododd y Pwyllgor fod y Comisiwn wedi cofnodi colledion a oedd yn dod i gyfanswm o £949 yn ystod 2019-20. Roedd hyn yn bennaf oherwydd ffrancio wedi'i ôl-ddyddio ar adroddiadau arolygon ymlaen llaw ar gyfer eu dosbarthu, a ganslwyd wedi hynny oherwydd cyfnod neilltuo'r Etholiad Cyffredinol.

12.2 Ystyriodd y Comisiwn y papur ar y gwersi a ddysgwyd, a nododd y byddai'n ddoeth ffrancio eitemau i'w dosbarthu mor agos â phosibl at y dyddiad dosbarthu yn y dyfodol.

12.3 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn gwirio â Royal Mail a fyddai'n bosibl cael ad-daliad o daliadau post a gollir dan amgylchiadau tebyg.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 25 Tachwedd 2020

13. Cynllun Parhad Busnes 2020-21

13.1 Nododd y Comisiwn na fu unrhyw brawf o'r Cynllun Parhad Busnes yn ystod 2020-21 gan y rhoddwyd y Cynllun ar waith er mwyn ymateb i'r cyfnod clo COVID-19. Rhoddodd yr adroddiad grynodedb o'r meysydd a weithiodd yn dda a'r rhai lle y cafwyd rhai anawsterau mewn perthynas â bod angen mynd i'r swyddfa ar gyfer rhai tasgau cyllid ac arolygu, fel argraffu mapiau a dosbarthu adroddiadau arolygon. Casgliad cyffredinol yr adroddiad oedd y bu'r Cynllun Parhad Busnes yn gadarn dros ben, yn bennaf gan fod y system TGCh cwmwl wedi galluogi staff i weithio o bell a manteisio'n llawn ar system ffeiliau electronig CFfDLC.

13.2 **Cytunwyd** y dylid cynnwys y broses ar gyfer defnyddio llofnodion digidol yn y Cynllun Parhad Busnes.

Gweithredu: Pennaeth Busnes **Erbyn:** 25 Tachwedd 2020

13.3 Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai CFfDLC gasglu mwy o fanylion am effaith y cyfnod clo COVID-19 ar yr arolygon. Crybwyllwyd bod CFfDLC wedi ysgrifennu at y prif gynghorau i ofyn am eu barn ar ohirio'r arolygon. **Cytunwyd** y dylid diweddarau'r

Cynllun Parhad Busnes i gynnwys camau ffurfiol ar gyfer ymdrin ag arolygon prif gynghorau yn ystod achosion tebyg i'r cyfnod clo COVID-19.

Gweithredu: Pennaeth Arolygon a Rhaglenni **Erbyn:** 25 Tachwedd 2020

- 13.4 Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai'n bwysig cael adborth ar ba mor dda yr oedd staff yn teimlo y cawsant eu cefnogi gan CFfDLC yn ystod y cyfnod clo COVID-19. **Cytunwyd** y byddai arolwg ar-lein yn cael ei gynnal o les staff yn ystod y cyfnod clo.

Gweithredu: Pennaeth Busnes **Erbyn:** 25 Tachwedd 2020

- 13.5 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar brawf y Cynllun Parhad Busnes a'r casgliad bod y Cynllun yn ddigon cadarn.

14. Adroddiad Rheoli Risg

- 14.1 Ystyriwyd y cofrestrau a'r polisi risg cyfredol. Rhoddwyd manylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestrau risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

- 14.2 O ran Risg Gweithredol OP20 yn ymwneud ag achrediad y Gwasanaeth Sifil, holodd y Pwyllgor a oedd yr achrediad wedi'i adnewyddu. Crybwyllwyd bod yr achrediad wedi'i adnewyddu am 3 blynedd erbyn hyn hyd 2023. **Cytunwyd** y gellid dileu OP20 o'r Risg Gweithredol.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2020

- 14.3 **Cytunwyd** y dylid ychwanegu colofn at y Gofrestr Risgiau Gweithredol yn nodi a oedd y risg yn cael ei thrin neu ei goddef.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2020

15. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

- 15.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 30 Mehefin 2020.

16. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

- 16.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion a lletygarwch ar gyfer 2020-21 hyd yn hyn.

17. Cwynion

- 17.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw gwynion i CFfDLC ar gyfer 2020-21 hyd yn hyn.

- 17.2 Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ddiweddar yn ymwneud ag arolwg etholiadol Sir y Fflint. **Cytunwyd** y byddai cwyn yn cael ei chofnodi mewn perthynas ag arolwg Sir y Fflint ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ym mis Tachwedd.

- 17.3 Ystyriodd y Pwyllgor y dylid cynnwys eitem ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar agendâu'r cyfarfodydd yn y dyfodol. **Cytunwyd** y byddai'r eitem newydd hon ar yr agenda yn cael ei hychwanegu at Gynllun Gwaith y Pwyllgor.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 25 Tachwedd 2020

18. Adroddiad a Pholisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll

- 18.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ar gyfer 2020-21 hyd yn hyn.

20. Unrhyw fater arall

- 20.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

21. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

- 20.1 Mae dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

25 Tachwedd 2020
24 Chwefror 2021